

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2014**

Amser: **09:03 – 10:31**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_04_02_2014&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

William Powell (Cadeirydd)
Russell George
Bethan Jenkins
Joyce Watson

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

Steve George (Clerc)
Kayleigh Driscoll (Dirprwy Clerc)
Kath Thomas (Dirprwy Clerc)
Matthew Richards

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifriad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Deisebau newydd

2.1P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a'r
- holl Fyrdau Iechyd Lleol

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

2.2P-04-533 Cynllunio Amgylcheddol ar gyfer Safleoedd Tyrbinau Gwynt ar Raddfa Fach

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn ei farn am y ddeiseb.

2.3P-04-534 Ymgyrch i ddiogelu YSBYTY ABERTEIFI

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

Cytunodd Joyce Watson AC i roi copi i'r Pwyllgor o ohebiaeth ddiweddar a dderbyniodd yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cynulliad, sy'n ymwneud â'r materion yn y ddeiseb.

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty

3.2P-04-394 Achub ein Gwasanaethau – Ysbyty Tywysog Philip

3.3P-04-430 Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod

3.4P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau i Wasanaethau Iechyd

3.5P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y deisebau a chytunodd i:

- gau deiseb Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod, ond i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn gofyn am eglurhad ynghylch y gwasanaeth newydd sydd i'w ddarparu mewn perthynas â'r angen i fod wedi cofrestru gyda meddyg teulu;
- ceisio barn y deisebydd yn dilyn datganiad y Gweinidog ynghylch yr uned newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili, ac
- ar awgrym y deisebydd, gohirio trafodaeth bellach ar y ddeiseb Achub ein Gwasanaethau hyd nes y bydd canlyniad yr adolygiad barnwrol yn hysbys.

3.6P-04-502 Canolfan Lles ar gyfer Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed barn y deisebwyr am lythyr y Gweinidog.

3.7P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor;

- rhoi gwybod i Antoinette Sandbach AC am y cynnydd ar y ddeiseb, o ystyried ei diddordeb yn y maes hwn.

3.8P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- gadw golwg tan yr adolygiad o'r rheoliadau presennol; ac
- anfon copïau at y Gweinidog o'r holl ymatebion a ddaeth i law gan y deisebydd a'r rhanddeiliaid yn ystod y drafodaeth ar y ddeiseb i helpu gyda'r adolygiad.

3.9P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- gau'r ddeiseb yn sgîl datganiad y Gweinidog nad oes llawer rhagor y gellir ei wneud, ac
- ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn mynegi pryder ynghylch ei ymateb i'r Pwyllgor.

3.10 P-04-509 Achub Canolfan Tennis Genedlaethol Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn Cyngor Dinas Caerdydd am y cynigion a'r model cyfranogiad a amlinellwyd gan Tennis Cymru, ac i ofyn a fyddai'n barod i ystyried gweithio gyda Tennis Cymru yn y modd a awgrymir yn y llythyr at y Pwyllgor. Nododd Aelodau'r Pwyllgor hefyd y byddent, pe byddai hynny'n angenrheidiol, ar gael ar gyfer cyfarfod gyda Chanolfan Tennis Abertawe.

3.11 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb. Er bod Pwyllgor Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i fod i ystyried rhestru'r safle yn lleol ar 7 Chwefror, cafwyd ar ddeall bod hyn bellach wedi'i ohirio am fis. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

3.12 P-04-397 Cyflog Byw

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd ar ôl i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ystyried y mater ym mis Mawrth.

3.13 P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed barn y deisebwyr ac aros am gadarnhad gan y Gweinidog o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd.

3.14 P-04-475 Yn eisiau - Bysiau i Feirionnydd

3.15 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

3.16 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y deisebau a chytunodd i gynnal 'ymchwiliad' byr ar y mater hwn.

3.17 P-04-498 Addysgu Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan na chafwyd ymateb gan y deisebydd.

3.18 P-04-499 Rhoi Hwb i Gwricwlwm yr Iaith Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog am ei ymateb i sylwadau pellach y deisebydd; ac
- anfon copi at y deisebydd o'r trawsgrifiad o'r ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn a chopi o ddatganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog ar 3 Chwefror.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Trafod y flaenraglen waith

Trafododd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor.